

Billy De Wolfe - yr actor o Ben Llŷn

gan Arvon Roberts

Roedd Billy De Wolfe yn ŵr adnabyddus iawn ym myd y ffilmiau ym mhundegau'r ugeinfed ganrif. Ei enw bedydd oedd William Andrew Jones. Hanai ei hynafiaid o Ben Llŷn. Ei hen nain oedd Judith Griffith, a anwyd ym Modwrdda, Aberdaron, ac a fu farw 3 Awst 1853 yn 67 mlwydd oed. Priododd â William Griffith, a fu farw 15 Ionawr 1853, yn 79 mlwydd oed. Treuliodd y ddau eu hoes ar fferm Penybont, Llangian, ac ym mynwent Eglwys Llangian y claddwyd.

Jane Griffith oedd enw nain Billy, ac ymgartrefai ym Mhenybont, ond ymfudodd hi i'r Amerig yn ei harddegau cynnar. Yr oedd nain Billy yn chwaer i fam David Morris (Dafydd Cae Mair, fel y'i galwyd ef), o Rostryfan, a Groeslon yn Arfon.

Nain a thaid Billy yn priodi yn yr Amerig

Ym Moston, Massachusetts, cyfarfu Jane Griffith â Chymro o'r enw Robert Jones, a oedd yn frodor o Ogledd Cymru. Roedd yntau wedi ymfudo yn 1901 ac wedi ymsefydlu yn North Pembroke, Massachusetts. Enwau rhieni Billy oedd Robert Ellis Jones, llyfrwyrwr wrth ei alwedigaeth, ac Ada Gaynor, un o Nova Scotia, Canada.

Ganwyd Billy De Wolfe yn Wollaston, Massachusetts, ar 18 Chwefror 1907. Daeth ei rieni ag ef drosodd i Gymru pan oedd yn naw wythnos oed, gan aros yng Nghymru nes oedd Billy yn naw oed, ac yna dychwelyd i Massachusetts i ddyfod yn ddinasyddion America. Addysgwyd ef yn Quincy, Massachusetts a chafodd ei fagu gan ei Fodryb Laura.

Cychwyn gweithio yn y theatr

Yn ddiweddarach, bu'n gweithio fel tywysydd yn Theatr Quincy hyd nes y bu i reolwr Band Jimmy Connor ei ddarganfod yn ymarfer defod yn y theatr, ac yna ei gyflogi ef fel dawnsiwr gyda'r band hwnnw am gyflog o hanner can doler yr wythnos. Dywedodd rheolwr y theatr wrtho na fuasai byth yn llwyddo yn y busnes adloniant gydag enw fel William A. Jones, ac felly, cymerodd Billy gyfenw y rheolwr oedd hefyd yn actiwr Vaudville, sef De Wolfe.



Billy De Wolfe gyda Doris Day yn y ffilm 'Lullaby of Broadway' (1951)



William Andrew Jones (1907-1974)

Bu'n teithio'r cylchdeithiau Vaudville gyda'i act ei hun, De Wolfe a Kindler, a chwaraeodd mewn act dawnsio yn yr Hippodrome, Efrog Newydd. Yna, fe ffurfiodd act newydd, De Wolfe Metcalf a Ford, pan ddaeth i Lundain am bedair wythnos, i fod, ond fe arhosodd Bill am bum mlynedd. Pan ddychwelodd ei bartneriaid i America, arhosodd De Wolfe fel unigolyn, gan berfformio yn y cylchoedd Saesneg, megis y *Palladium*, ac ar Cyfandir.

Llwyddo yn y Clybiau Nos

Yn 1938, cafodd ei act ei chynnwys yn y sioe 'Revels in Rhythm' gan Cochran, yn Theatr Trovadero, Llundain. Yn ôl yn America, daeth yn berfformiwr clwb-nos adnabyddus iawn gyda'i ddawnsio hynod a'i ddefodau gwatwarus. Yn fuan iawn, yr oedd yn ennill cyflog o \$5,000 yr wythnos yng nghlybiau-nos mwyaf poblogaidd y genedl o *Rainbow Room*, Efrog Newydd, i *Shamrock*, Houston, a *Palmer House*, Chicago.

Ionawr 20 1942, cofrestrodd Billy De Wolfe gyda Llynges America o dan yr enw William A. Jones, Llongwr Dosbarth Cyntaf, ac yn fuan iawn, cafodd ei drosglwyddo fel cerddor ail ddsbarth i Orsaf Hyfforddi Morwrol y Great Lakes, yn Illinois. Cyn iddo gofrestru yn y Llynges, yr oedd wedi gwneud ymddangosiad mewn ffilm afaelgar, 'Dixie' (1943), sef cofiant dychmygol gan gwmni ffilmiau Paramount o Dan Emmett (Bing Crosby), y minstrel.

Actio mewn ffilm gyda Betty Hutton

Ar ôl ei gyfnod yn y Llynges, dychwelodd at Paramount yn 1945 i chwarae rhan seiciatrydd gyda Betty Hutton, yn y ffilm 'Duffy's Tavern'.

Yn ystod y 1950au cynnar, trodd ei gefn ar fyd y ffilmiau am gyfnod a chychwyn ym maes teledu, ac ar 23 Rhagfyr 1951, cafodd ran yn 'Toast of the Town', Ed Sullivan, gyda

Gloria Swanson a Julie Harris. Ond ar y llwyfan y daeth i amlygrwydd fwyaf, ac yn 1954, enillodd Wobr Theatr Donaldson. Ymddangosodd yn y Royal Variety Performance yn Llundain yn 1948 a 1955. Ar 1 Mawrth 1957, dychwelodd i Broadway i Theatr y Winter Gardens, i chwarae rhan yn y 'Ziegfeld Follies'. Ar ôl hynny, ymddangosodd, hefyd, mewn sawl sioe gerdd yn y Center, Efrog Newydd, a nifer o raglenni teledu rhwng 1965-1973.

Ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli yn 1955

Ym 1955 ymwelodd â Phrydain. Mae'n debyg mai uchafbwynt ei ymweliad oedd cael mynd i Aberdaron ac ardal ei hynafiaid ym Mhen Llŷn. Yr oedd yn bresennol yn nathliad 600 mlynedd arwyddo y Siarter Brenhinol yn nhref Pwllheli ac hefyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yno y flwyddyn honno.

Bu Billy De Wolfe farw yn Los Angeles, California ar 5 Mawrth 1974, yn 67 mlwydd oed o ganer yr ysgyfaint. Gadawodd eiddo personol o \$230,225 yng ngofal gweinyddwr cyhoeddus yn Hollywood, ac yn ddiweddarach yr unig etifedd y llwyddwyd i gael hyd iddi oedd hanner chwaer iddo, Virginia Durham, a oedd yn byw yn Mesa, Arizona. Trosglwyddwyd ei gasgliad enfawr o ddogfennau a chofnodion y Byd Adloniant i Brifysgol De California.



Gyda Bing Crosby yn 'Blue Skies'. Irving Berlin 1946

Yr oedd brawd i Billy De Wolfe, Robert G. Jones (1903/1968), yn arweinydd amlwg gyda'r Cymry yn ardal Worcester, Massachusetts. Ymunodd â Heddlu Talaith Massachusetts yn 1926, ac yn ddiweddarach yr Heddlu Cudd yn 1944. Bu'n aelod o